# Castell y Mis:



## Castell Gwrych

Mae un o raglenni teledu mwyaf poblogaidd ITV yn dychwelyd i Abergele yn 2021 i ffilmio ‘I’m a Celebrity, Get Me out of Here!’ Pwy yw’r selebs sy’n gobeithio ennill teitl Brenin neu Frenhines y castell eleni? Dewiswch un o’r selebs. Ygrifennwch ddyddiadur o ddiwrnod y seleb yn y castell. Gallwch wylio hwn er mwn casglu ychydig bach mwy o wybodaeth am y rhaglen…a’r castell.

# Cwis yr Wythnos: 06.11.2023

1. Sawl gôl sgoriodd tîm pêl-droed merched Cymru yn eu gemau ym mis Hydref?

2. Sawl gôl sgoriodd tîm pêl-droed Abertawe yn eu gemau ym mis Hydref?

3. Nodwch enw capteniaid tîm pêl-droed merched, tîm pêl-droed dynion Cymru a chapten tîm pêl-droed Abertawe.





Gwefan Defnyddiol
Gwefan 1
Ddefnyddiol 2


# Chwaraeon y Mis





## Golff

Jamie Donaldson oedd y Cymro diwethaf i gynrychioli Ewrop yng Nghwpan Ryder yn ôl yn 2014. Ond mae Golff Cymru yn gobeithio’n fawr bod seren golffio nesaf Cymru rownd y gornel. Er mwyn llwyddo, maent wedi agor academi gêm fer yng Nghlwb Golff Parc yng Nghasnewydd. Eich tasg yw i greu hysbyseb i blant ledled Cymru i fynd i ddefnyddio’r cyfleusterau newydd yma fel bod seren golffio nesaf Cymru yn cyrraedd tîm Ewrop yng Nghwpan Ryder.








# Chwaraeon y Mis



## Pel-droed

2. 'Gorau Chwarae, Cyd-chwarae'. Ewch ati i ddylunio baner swyddogol ar gyfer tîm pêl-dreod Cymru sy'n cynnwys geiriau'r arwyddair. Beth am ddewis y cynllun gorau er mwyn ei osod mewn ardal o'r ysgol?





# Cwis yr Wythnos: 13.11.2023

1. Enwch rai o’r actorion sy’n ymddangos ar raglen Mabinogi-ogi.

2. Gwyliwch a gwrandewch ar gân Nia Ben Aur. Beth yw’r linell sy’n dilyn ‘Tywysog hardd…?’

3. Ewch ati i chwarae gêm Mabinogi-ogi.





Gwefan Defnyddiol

# Digwyddiad y Mis:



## Sioe Frenhinol yr Haf/ Gaeaf Cymru

Bydd y ffair cael ei chynnal ar 27-28 o Dachwedd 2023.
Unwaith yn rhagor, bydd maes y sioe yn Llanelwedd yn llawn ymwelwyr, cystadlaethau a da byw.

Mae trefnwyr y sioe am greu pamffledi i hysbysu pobl am y digwyddiad.
Eich tasg yw i greu pamffled i hyrwyddo Sioe Frenhinol y Gaeaf Cymru.
Bydd rhaid i'w bamffled gynnwys:

- Map o'r ffair aeaf
- Gwybodaeth am y cyfleusterau
- Gwybodaeth ar sut i gyrraedd
- Gwybodaeth am ble i aros
- Gwybodaeth am gost y tocynnau

Unrhyw wybodaeth arall (e.e. stondinau masnach yr wyl)
Bydd angen i chi ddiolch i noddwyr y sioe ar gefn y bamffled.

Ffocws: Cymru

# Cwis yr Wythnos: 20.11.2023

1. Beth yw enw’r stadiwm lle mae tîm pêl-droed Abertawe a thîm rygbi’r Gweilch yn chwarae?


2. Pa mor uchel yw Tŵr Meridian?

3. Beth yw enw’r amgueddfa yn Abertawe sy’n adrodd hanes diwydiant yng Nghymru?





# Man aros y Mis:





## Celtic Manor

Dyn o’r enw Syr Terry Matthews sydd berchen gwesty moethus y Celtic Manor. Fe oedd biliwnydd cyntaf Cymru. Gallwch ddarllen mwy amdano yma.
Cynlluniwch fusnes a all eich gwneud yn filiwnydd fel Syr Terry Matthews.



# Cwis yr Wythnos: 27.11.2023



1. Rhestrwch 5 person enwog sydd o/ yn byw yn Abertawe.

2. Beth yw'r enw ar y ddwy ysgol Gyfun Gymraeg sy'n Abertawe?

3. Nodwch enw 10 siop sydd yn y Quadrant yn Abertawe.

